

TAFLEN BENDERFYNIAD CYDBWYLLGOR GwE

Dyddiad y Cyfarfod

14 Gorffennaf 2021

PWNC

Eitem 5: DATGANIAD O'R CYFRIFON 2020/21

PENDERFYNIAD

Derbyn a nodi Datganiad o Gyfrifon GwE (yn amodol ar archwiliad) am flwyddyn 2020/21.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Darparwyd Datganiad o'r Cyfrifon, ar ffurf 'statudol', wedi'i ardystio i'r Cydbwyllgor er gwybodaeth, fel sy'n ofynnol o dan Adran 12 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Ategwyd y byddai fersiwn ôl-archwiliad yn dod gerbron y Cydbwyllgor yn yr Hydref.

DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

TAFLEN BENDERFYNIAD CYDBWYLLGOR GwE

Dyddiad y Cyfarfod

14 Gorffennaf 2021

PWNC

Eitem 6: **DATGANIAD LLYWODRAETHU**

PENDERFYNIAD

Derbyn a chymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2020/21.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae'n ofyniad i'r Cydbwyllgor adolygu a chymeradwyo datganiad rheolaeth fewnol.

DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

TAFLEN BENDERFYNIAD CYDBWYLLGOR GwE

Dyddiad y Cyfarfod

14 Gorffennaf 2021

PWNC

Eitem 7: ADRODDIAD BLYNYDDOL 2020/21

PENDERFYNIAD

Derbyn a chymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2020/21 ar yr amod o ychwanegu blaenoriaeth sy'n ymdrin ag ymateb i effeithiau ôl-covid yng nghyd-destun y gwasanaeth.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae'n ofynnol yn ôl Cytundeb Rhyng-Awdurdod GwE, bydd GwE yn adrodd yn flynyddol ar berfformiad y gwasanaeth o safbwynt cyflawni swyddogaethau a nodau allweddol y gwasanaeth.

Cyflwynwyd yr adroddiad blynyddol sy'n amlinellu sut mae GwE wedi ail bwrpasu amryw o weithiau yn ystod pandemig COVID.

Yn ystod y drafodaeth codwyd sylw bod bwch nad oedd cyfeiriad yn y blaenoriaethau strategol at sut mae GwE am ymateb i effeithiau ôl-covid yng nghyd-destun addysg.

DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

TAFLEN BENDERFYNIAD CYDBWYLLGOR GwE

Dyddiad y Cyfarfod

14 Gorffennaf 2021

PWNC

Eitem 8: STRATEGAETH I GEFNOGI RHIENI/ GOFALWYR

PENDERFYNIAD

Nodi a derbyn yr adroddiad a chefnogi'r strategaeth a'r gefnogaeth sydd ar gael i ysgolion mewn perthynas ag ymgysylltiad rhieni/gofalwyr yng ngogledd Cymru.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae'n flaenoriaeth ranbarthol i sicrhau bod gan rieni/gofalwyr yr adnoddau i gefnogi eu plant.

Diweddarwyd aelodau'r Cydbwyllgor am y strategaeth a'r gefnogaeth sydd ar gael i gyflawni hyn.

DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

TAFLEN BENDERFYNIAD CYDBWYLLGOR GwE

Dyddiad y Cyfarfod

14 Gorffennaf 2021

PWNC

Eitem 9: MENTER TEDxGWE

PENDERFYNIAD

Cymeradwyo'r adroddiad a Menter TEDxGwE Gogledd Cymru ac edrychir ymlaen at dderbyn diweddariad yn yr Hydref.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Rhodddwyd trosolwg o Fenter TEDxGwE i aelodau'r Cyd-Bwyllgor.

Ddwy flynedd yn ôl bellach, daeth y gwasanaeth yn rhan o gynllun *Climate Neutral Now* y Cenhedloedd Unedig i wrthbwysu allyriadau teithio GwE.

Mae TEDx yn fenter fyd-eang i eirioli dros ddatrysiadau i argyfwng yr hinsawdd a chyflymu'r datrysiadau hynny, gan roi syniadau ar waith.

Cytunwyd bod hyn yn amserol iawn i gyd-fynd â blaenoriaethau strategol yn ymwneud ag newid hinsawdd ar draws y rhanbarth.

DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.
